
# The three little pigs **Y tri mochyn bach**

**Context:**
Construction Play

**Learning Outcomes:**
- Word recognition
- Recall of words
- Turn Taking
- Listening to instructions
- Verbal Communication
- Mathematical Language
- Extending Imagination
- Develop fine motor skills
- Develop hand eye co-ordination

**Overview:**
Incorporating Welsh language into construction play.

**Resources:**
Construction play resources such as Lego, stickle bricks, foam blocks.



**Instructions:**
- Set up an area or table with a large selection of materials.
- Read Three Little Pigs or Y Tri Mochyn Bach if possible
- Discuss the comparisons and differences in each pig's house using Welsh terms where possible
- Question the children's understanding of why the wolf was able to blow down the houses.
- Using the construction table ask the child / children to build three houses for the pigs made of different construction.
- Ask key questions such as which house is bigger? Which is taller? What colour is the house? Does it have any windows?
- When the children have completed their houses they can now take up the role of the wolf and try and blow their houses down.
- Discuss why the house may have blown over, come apart or stayed together.

Early Years Wales Blynyddoedd Cynnar Cymru

CYMRAEG Dysgu Learn

NDNA Cymru National Day Nurseries Association

# The three little pigs **Y tri mochyn bach**

**Useful phrases:**

What is your house made of?
**O beth mae dy dŷ di wedi ei wneud?**
**O beth mae eich tŷ chi wedi ei wneud?**

Which is bigger?
**Pa un yw'r mwyaf?**

Which is smaller?
**Pa un yw'r lleiaf?**

Which is taller?
**Pa un yw'r talaf?**

What colours have you used?
**Pa liwiau wyt ti wedi defnyddio?**
**Pa liwiau dych chi wedi defnyddio?**

What colour is the house?
**Pa liw yw'r tŷ?**

Does it have windows? What about the roof?
**Oes ffenestri gyda fe? Beth am y to?**

Have you finished? Very good!
**Wyt ti wedi gorffen? Da iawn!**
**Dych chi wedi gorffen? Da iawn!**

How many houses do you have?
**Faint a dai sy gyda ti?**
**Faint o dai sy gyda chi?**

Where will the pig sleep? eat?
**Ble bydd y mochyn yn cysgu? bwyta?**

Can you blow it down like the wolf?
**Wyt ti'n gallu ei chwythu i lawr fel y blaidd?**
**Dych chi'n gallu ei chwythu i lawr fel y blaidd?**

How many....have you used?
**Faint o.....wyt ti wedi defnyddio?**
**Faint o.....dych chi wedi defnyddio?**



**Colours:**

Red
**Coch (cohch)**

Blue
**Glas (glahs)**

Yellow
**Melyn (meh-leen)**

Orange
**Oren (óh-ren)**

Purple
**Porffor (pór-phor)**

Black
**Du (dee)**

White
**Gwyn (gwin)**

Grey
**Llwyd (llweed)**

Pink
**Pinc (pink)**

**Numbers:**

One
**Un (een))**

Two
**Dau (dái)**

Three
**Tri (tree)**

Four
**Pedwar (péd-uahr)**

Five
**Pump (pimp)**

Six
**Chwech (chooéch)**

Seven
**Saith (sáheeth)**

Eight
**Wyth (úeeth)**

Nine
**Naw (now)**

Ten
**Deg (dehg)**

# The three little pigs **Y tri mochyn bach**

Un dydd, roedd Mami Mochyn a thri mochyn bach yn byw mewn tŷ bach, bach.

Yn gynnar un bore, deffrodd Mami Mochyn a gwaeddodd,

"Does dim lle yn y tŷ yma. Ewch i wneud tŷ eich hunain. Ond cofiwch, peidiwch byth agor y drws i'r hen flaidd mawr cas."

Felly, dechreuodd y tri mochyn bach gerdded, cerdded a cherdded a cherdded.

Adeiladodd y mochyn bach cyntaf dŷ gwellt. Ond cerddodd yr hen flaidd mawr cas heibio.

"Mochyn bach. Mochyn bach. Ga'i ddod i mewn?", gofynodd y blaidd. "Na chei wir, na chei wir!", gwaeddodd y mochyn bach.
"Felly dw i'n mynd i chwythu a chwythu a chwythu dy dŷ di i lawr," gwaeddodd yr hen flaidd cas.
Rhedodd y mochyn bach cyntaf i chwilio am ei ddau frawd.

Roedd yr ail fochyn bach wedi gwneud tŷ o goed. Ond cerddodd yr hen flaidd mawr cas heibio.

"Mochyn bach. Mochyn bach. Ga'i ddod i mewn?", gofynodd y blaidd. "Na chei wir, na chei wir!" gwaeddodd y mochyn bach.
"Felly dw i'n mynd i chwythu a chwythu a chwythu dy dŷ di i lawr," gwaeddodd yr hen flaidd cas.
Rhedodd yr ail fochyn bach i chwilio am ei ddau frawd.


Adeiladodd y trydydd mochyn bach dŷ brics. Ond cerddodd yr hen flaidd mawr cas heibio.
"Mochyn bach. Mochyn bach. Ga'i ddod i mewn?" "Na chei wir, na chei wir!" gwaeddodd y mochyn bach.
"Felly dw i'n mynd i chwythu a chwythu a chwythu dy dŷ di i lawr," gwaeddodd yr hen flaidd cas.

Ond yn ffodus, doedd yr hen flaidd cas ddim yn gallu chwythu'r tŷ brics i lawr. Roedd yr hen flaidd mawr yn grac iawn a dringodd ar do'r tŷ a dechreuodd ddringo i lawr y simnai.

Gosododd y trydydd mochyn bach grochan mawr i ferwi ar y tân.

WOSH!

I lawr â'r hen flaidd mawr cas ac i mewn i'r crochan. Neidiodd yr hen flaidd mawr yn sydyn allan o'r crochan a rhedodd adref. Roedd y tri mochyn bach yn byw yn hapus am byth!



# The three little pigs **Y tri mochyn bach**

Once upon a time Mother Pig and three little pigs lived in a small house, small.

Early one morning Mother Pig woke and shouted,

"There is no room in this house. Go and make your own house. But remember, never open the door to the big old nasty wolf. "

So the three little pigs walked and walked and walked.

The first little pig made a straw house. But the big old nasty wolf walked past.

"Little Pig. Little Pig. May I come in? ". "No you can't, no you can't" Shouted the little pig.
"Then I will blow and blow and blow your house down," shouted the big old nasty wolf.
The first little pig ran to look for his brothers.

The second little pig made a wooden house. But the big old nasty wolf walked past.
"Little Pig. Little Pig. May I come in? ". "No you can't, no you can't" Shouted the little pig.
"Then I will blow and blow and blow your house down," shouted the big old nasty wolf.
The second little pig ran to look for his brothers.

The third little pig made a house fro bricks. But the big old nasty wolf walked past.
"Little Pig. Little Pig. May I come in? ". "No you can't, no you can't" Shouted the little pig.
"Then I will blow and blow and blow your house down," shouted the big old nasty wolf.

But fortunately the big old nasty old wolf could not blow the brick house down. The big old nasty wolf big got very angry and climbed on the roof of the house and began to climb down the chimney.

The third little pig put a cauldron on the fire to boil.

WOSH!

Down went the big old nasty wolf into the cauldron. The big old nasty wolf jumped out of a big pot and ran home. The three little pigs live happily forever!

